OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3305 (Cy.292)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

Gwnaed - - - -	*22 Tachwedd 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym - -	*18 Rhagfyr 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**), ac a freiniwyd ynddynt(**2**) bellach;

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**) ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau yn y Gorchymyn canlynol at Benderfyniadau penodol i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007; mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 18 Rhagfyr 2007.

Diwygiadau i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006

2. Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**4**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1967 p. 8; diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 8.

(**2**) Mae adran 1(2)(b) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn darparu mai'r awdurdod cymwys yng Nghymru a Lloegr at ddibenion y Ddeddf honno yw'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 1972 p. 68. Mae Atodlen 2, paragraff 1A, a fewnosodwyd gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), adran 28, yn darparu ar gyfer cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth gyfeiriadau at offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

(**4**) O.S. 2006/1643 (Cy.158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2716 (Cy.229).

Atal *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier) rhag cael ei gyflwyno i'r Gymuned Ewropeaid a'i ledaenu oddi mewn iddi

3.—(1) Yn erthygl 2(1), yn y man priodol, mewnosoder—

""Decision 2007/365/EC" means Commission Decision 2007/365/EC on emergency measures to prevent the introduction into and the spread within the Community of *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier)(**5**), as amended from time to time;".

(2) Yn Rhan A o Atodlen 1, ar ôl eitem 34 o "Insects, mites and nematodes", ychwaneger—

"**35.** *Rhynchophorus ferrugineus* (Olivier)".

(3) Yn Rhan A o Atodlen 4, ar ôl eitem 57, mewnosoder—

"57a.	Plants, other than fruit or seeds, having a diameter of the stem at the base of over 5cm of the species listed in Article 1(b) of Decision 2007/365/EC originating in any third country	Without prejudice to the requirements in item 57, the plants, including those collected from natural habitats, shall be accompanied by an official statement that the plants meet the requirements of paragraph (a), (b) or (c) of point 1 of the Annex to Decision 2007/365/EC".

(4) Yn Rhan B o Atodlen 4, ar ôl eitem 6, mewnosoder—

"6a.	Plants, other than fruit or seeds, having a diameter of the stem at the base of over 5cm of the species listed in Article 1(b) of Decision 2007/365/EC	The plants shall be accompanied by an official statement that they have been grown in accordance with the specifications in paragraph (a), (b), (c) or (d) of point 2 of the Annex to Decision 2007/365/EC".

(5) Yn Rhan A o Atodlen 5, Rhan A o Atodlen 6 a Rhan A o Atodlen 7, ar ôl eitem 1 mewnosoder—

"**1a.** Plants, other than fruit or seeds, having a diameter of the stem at the base of over 5cm of the species listed in Article 1(b) of Decision 2007/365/EC.".

Atal *Gibberella circinata* Nirenberg & O'Donnell rhag cael ei gyflwyno i'r Gymuned Ewropeaidd a'i ledaenu oddi mewn iddi

4.—(1) Yn erthygl 2(1), yn y man priodol, mewnosoder—

""Decision 2007/433/EC" means Commission Decision 2007/433/EC on provisional emergency measures to prevent the introduction into and the spread within the Community of *Gibberella circinata* Nirenberg & O'Donnell(**6**), as amended from time to time;".

(2) Yn Rhan A o Atodlen 1, ar ôl eitem 17 o "Fungi", ychwaneger—

(**5**) OJ Rhif L 139, 31.5.2007, t. 24.
(**6**) OJ Rhif L 161, 22.6.2007, t. 66.

"**18.** *Gibberella circinata* Nirenberg & O'Donnell".

(3) Yn Rhan A o Atodlen 4, ar ôl eitem 2, mewnosoder—

"2a.	Plants intended for planting, including seeds and cones for propagation purposes, of the genera and species referred to in Article 1(2) of Decision 2007/433/EC, originating in any third country	Without prejudice to the requirements in items 1, 2 and 3, the plants shall be accompanied by an official statement that— they originate in a place of production which is registered and supervised by the national plant protection organisation in the country of origin; and they meet the requirements of paragraph (a), (b) or (c) of point I of Annex I to Decision 2007/433/EC".

(4) Yn Rhan B o Atodlen 4, ar ôl eitem 1, mewnosoder—

"1a.	Plants intended for planting, including seeds and cones for propagation purposes, of the genera and species referred to in Article 1(2) of Decision 2007/433/EC	Without prejudice to the requirements in item 7 of Part A of Schedule 6, the plants shall be accompanied by an official statement that they have been grown in accordance with the specifications in paragraph (a), (b) or (c) of point II of Annex I to Decision 2007/433/EC".

(5) Yn Rhan A o Atodlen 5, ar ôl eitem 1, mewnosoder—

"**1b.** Seeds and cones, intended for propagating, of the genera and species referred to in Article 1(2) of Decision 2007/433/EC.".

(6) Yn Rhan A o Atodlen 6 a Rhan A o Atodlen 7, ar ôl eitem 1 mewnosoder—

"**1b.** Plants intended for planting, including seeds and cones intended for propagating, of the genera and species referred to in Article 1(2) of Decision 2007/433/EC.".

Atal rhag cyflwyno a lledaenu firoid y gloronen bigfain

5.—(1) Yn erthygl 2(1), yn y man priodol, mewnosoder —

""Decision 2007/410/EC" means Commission Decision 2007/410/EC on measures to prevent the introduction into and spread within the Community of Potato spindle tuber viroid(**7**), as amended from time to time;".

(2) Yn Rhan A o Atodlen 4, ar ôl eitem 37, mewnosoder—

(**7**) OJ Rhif L 155, 15.6.2007, t. 71.